# CYNGOR CYMUNED BUAN

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 8 Ebrill 2021 gafodd ei gynnal drwy gyfrwng sustem ZOOM**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**:
Hughie Williams – Cadeirydd
Rhys Jones – Is Gadeirydd
Philip Roberts
Catherine Hughes
Wyn Davies
Gareth Roberts
Einir Lewis
Tesni Wyn Jones
Nia Jones
Anwen Davies – Cynghorydd Sirol
Rhian Holt - clerc

1. **Ymddiheuriadau** – y Cynghorydd Dafydd Ll Williams

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cadarnhawyd cofnodion 11 Mawrth 2021 yn gywir gan y Cynghorydd Catherine Hughes ac eilwyd gan y Cynghorydd Wyn Davies.

**3. Ymatebion i ohebiaeth**

Doedd dim ymateb i ohebiaeth.

**4. <u>Materion Ariannol</u>**

Derbyniwyd cysoniad y banc am y cyfnod 4 Mawrth 2021 i 3 Ebrill 2021 yn gywir yn y swm o £5318.30.

Bydd y sieciau isod yn cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y dyddiau nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Rhian Holt | £111.79 | Siec rhif 200616 |
| Cyllid a Thollau ein Mawrhydi | £28.00 | Siec rhif 200617 |
| Calonau Cymru – 2 defibrillator | £2362.00 | Siec rhif 200618 |

Derbyniwyd derbynneb gan Archwilio Cymru ynghyd â chopi o anfoneb gan Ysgol Botwnnog ynglyn â glianiadur gafwyd i'r ysgol gyda chymorth ariannol gan Gyngor Buan.

**5. Materion Cynllunio**
Cafwyd un cais cynllunio:
Rhif Cais: C21/0305/33/TR
Lleoliad: Llinell drydan Llanbedrog-Botwnnog/Edern
Bwriad: Adeiladu Llinell trosodd 11kV bresennol, wedi ei ddal gan bolion pren, o is-orsaf bresennol Llanbedrog i bwynt i'r de-orllewin o Tan y Graig, Boduan.
DIM GWRTHWYNEBIAD

**6. Datgan Diddordeb**
Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**7. <u>Materion er Gwybodaeth</u>**
Mae pob dogfen yn cael ei yrru yn electronig i'r Cynghorwyr drwy e bost.
Cyngor Gwynedd – Rhaglen Waith – torri gwair oddifewn i 30/40mya yn ystod Mai, Gorffennaf a Medi.

9. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

**Cadeirydd ac Is Gadeirydd Newydd**
Trafodwyd cael Cadeirydd ac Is Gadeirydd Newydd a cafwyd awgrym i adael pethau yr un fath. Roedd y Cadeirydd ac Is Gadeirydd yn fodlon cario ymlaen am dymor arall.

**Defibrillator**
Datganodd y clarc bod anfoneb wedi ei dderbyn gan Calonnau Cymru am y ddau defibrillator ac y bydd yn cysylltu yn y dyddiau nesaf. Gofynwyd i'r clarc wneud ymholiad i Zurich er mwyn cadarnhau bod yr yswiriant yn ddigonol.

**Materion Ffyrdd**
Derbyniwyd cwynion Ffyrdd yn y cyfarfod fel a ganlyn:

1. Pant Glas, Rhydyclafdy – draen wedi cau ac yn gorlifo.
2. Meithrinfa Blagur – Mae llawer un yn parcio o flaen Blagur yn hytrach nag yn y maes parcio fel ei bod yn anodd i loriau a thractors mawr basio. Tybed fyddai'n bosibl cael arwydd "dim parcio" neu linellau dwbl yno.
3. Mae y lôn o Glanrhyd i Bont Glorian yn ddrwg iawn, gyda tyllau a'r lôn wedi "rhoid" ar yr ochr chwith.
4. Nanhoron i Nant Pwdin – Lôn wedi "rhoid", mae arwyddion yno ers tro.
5. Lôn Penrhos – Pan mae lôn Penrhos yn cau a'r traffig yn gorfod dod drwy Rhydyclafdy ac yn malu'r lonydd a'r ochrau, tybed fyddai'r bosibl gwneud rhyw fath o drefn "un ffordd" drwy ddefnyddio lôn Nanhoron a lôn Llanbedrog?

Gofynwyd i'r clarc gysylltu gyda adran drafnidiaeth Cyngor Gwynedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 08:00 y.h.
Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 13 Mai 2021 drwy gyfrwng **ZOOM**.